



Cymru Ifanc Young Wales

Barn pobl ifanc ar Brexit
Ymgynghoriad â phobl ifanc gan Cymru Ifanc
Tachwedd 2018.



Barn pobl ifanc ar Brexit.

Cyflwyniad a chyd-destun.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru Plant yng Nghymru i gynnal ymchwil er mwyn canfod barn plant a phobl ifanc ar Brexit yng ngwanwyn 2018.

Plant yng Nghymru yw'r corff cenedlaethol ymbarél ar gyfer sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd yng Nghymru. Mae Cymru Ifanc yn brosiect a seilir o fewn Plant yng Nghymru i sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed ar faterion sy'n bwysig iddynt ac sy'n effeithio arnynt.

Dechreuodd y cynllun gwaith a gytunwyd â Llywodraeth Cymru yn Ebrill 2018. Roedd elfennau allweddol y cynllun yn cynnwys datblygu a chyflenwi gweithdai mewn ysgolion Cynradd ac Uwchradd, ac mewn amrediad o leoliadau tu allan i'r ysgol. Cafodd yr adnoddau hyn eu datblygu gan dîm Cymru Ifanc, a ddatblygodd offer ar-lein gan gynnwys arolwg ac ystod o bolau Instagram. Digwyddiad olaf y gwaith Brexit oedd digwyddiad Amser Holi a gynhaliwyd yn y Senedd ym mis Hydref 2018.

Trwy gydol y gwaith, cafodd pobl ifanc y cyfle i fod yn rhan gynllunio a chyflenwi'r gwaith. Gweithiodd dau berson ifanc gyda thîm Cymru Ifanc yn y swyddfa yng Nghaerdydd yn ystod gwyliau'r haf i'w helpu i gynllunio a chyflenwi gweithdai.

Wrth i waith Brexit gael ei gyflwyno i grwpiau o bobl ifanc, roedd cyfleoedd i ragor o bobl ifanc gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau, gan gynnwys hyrwyddo'r offer ar-lein a nodi cyfleoedd am weithdai ychwanegol. Hefyd roedd pobl ifanc wrthi'n diwygio adnoddau ac offer, er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol.

Wrth baratoi am ddigwyddiad Amser Holi, cyfarfu grŵp o bobl ifanc i adolygu a grwpio'r cwestiynau a gafodd eu cyflwyno gan bobl ifanc o bob rhan o Gymru. Gwnaed y gwaith hwn i sicrhau bod amrediad mor eang â phosibl o gwestiynau yn cael eu cyflwyno i'r panel, er mwyn hybu trafodaeth eang.

Dulliau casglu data.

Cafodd yr wybodaeth a'r data am y gwaith hwn eu casglu trwy weithdai mewn ysgolion, gyda chlybiau ieuenctid a fforymau ieuenctid ynghyd ag arolygon ar-lein ac Instagram.

Gweithdai - Cyflwynodd tîm Cymru Ifanc 39 o weithdai, a hynny i fwy na 650 o blant a phobl ifanc rhwng Ebrill a Hydref 2018 mewn amrywiaeth o gyd-destunau a lleoliadau ledled Cymru. Mae'r gweithdai wedi amrywio o ran eu hyd, o 45 munud i 2 awr, yn dibynnu ar faint o amser gallai ysgolion, grwpiau neu fforymau ieuenctid drefnu ei fod ar gael. Hyd cyfartalog gweithdy oedd awr a hanner. Mae arddull a chynnwys y gweithdai wedi amrywio yn dibynnu ar yr ystod oedran, aelodau'r grŵp a'r lleoliad. Roedd y gwaith paratoi am bob sesiwn yn cymryd i ystyriaeth anghenion penodol y grŵp.

Datblygwyd tri gweithdy gwahanol fel fframwaith ar gyfer gweithio gyda grwpiau oedran gwahanol ac mewn cyd-destunau gwahanol. Gallwch weld y tri gweithdy sylfaenol a ddatblygwyd yn Atodiad B, ynghyd â'r ystod o adnoddau a ddatblygwyd i'w defnyddio yn y gweithdai.

Animeiddiad Brexit – Mae pobl ifanc o Ogledd a De Cymru wedi cymryd rhan mewn dylunio a datblygu animeiddiad a fydd yn adlewyrchu ystod o safbwyntiau pobl ifanc. Mae'r gwaith hwn wrthi'n cael ei gwblhau ar hyn o bryd.

Amser Holi yn y Senedd a fynychwyd gan 50 o bobl ifanc.

Hefyd roedd cyfleoedd i bobl ifanc ymateb gan ddefnyddio'r adnoddau ar-lein.

Twitter - Cafodd negeseuon dyddiol eu rhannu er mwyn hybu'r adnoddau ar-lein a nodi gweithgareddau a digwyddiadau a oedd ar y gweill.

Instagram – Cafodd pobl dros 13 oed eu hannog i fewngofnodi a dilyn Instagram Cymru Ifanc, er mwyn ateb pŵl Brexit Cymru Ifanc. Cafodd cwestiwn newydd am Brexit ei bostio ar Instagram bob dydd.

Arolwg ar-lein – Rhoddodd yr arolwg gyfle i bobl ifanc roi eu barn am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru mewn negodiadau Brexit. Postiwyd yr arolwg ar gyfrif Twitter Cymru Ifanc [@youngwalesciw](https://twitter.com/youngwalesciw) hefyd. Cymerodd yr arolwg lai na 5 munud i'w gwblhau.

Derbyniodd Cymru Ifanc 455 o ymatebion i'r Arolwg ar-lein.

Canfyddiadau

Gweithdai mewn Ysgolion Cynradd.

Gweithiodd Cymru Ifanc gydag Ysgolion Cynradd yn Ne Cymru i gasglu barn disgyblion yn eu blwyddyn olaf cyn symud i fyny i ysgol uwchradd.

Crynodeb o ganfyddiadau'r Gweithdai Ysgolion Cynradd

Mae adroddiad llawn yn Atodiad D gan gynnwys dyfyniadau gan ddisgyblion.

Ble / Pryd / Pwy ydych chi wedi eu clywed yn siarad am Brexit?

Pwy – Rhieni a'r teulu, ffermwyr, gwleidyddion (cafodd David Cameron, Theresa May, Jeremy Corbyn eu henwi'n benodol). Enwyd y Senedd a gohebwyd y newyddion.

Ble – Newyddion, teledu, (BBC ac S4C) a radio a Newsround ar y teledu. Hefyd cafodd Brexit ei drafod yn yr ysgol a Brownies.

Pryd – Drwy'r amser!

Pa faterion ydy hi'n bwysig i Lywodraeth Cymru eu hystyried am ddyfodol Cymru? Mewn grwpiau, rhoddwyd papur siart troi i ddisgyblion gydag amlinell o goeden, a defnyddiwyd nodiadau Post It fel dail i amlygu materion a oedd yn bwysig iddynt ar gyfer Cymru yn y dyfodol. Gwelir isod y meysydd pryder a enwodd disgyblion ysgolion cynradd ar eu 'coed', yn nhrefn eu blaenoriaeth.

Yr Amgylchedd: *“Llai o bobl yn defnyddio ceir, mwy o bobl yn teithio ar drenau, bysiau neu'n cerdded a seiclo. Hoffwn i weld Cymru werdd heb unrhyw lygredd.”*

Y Gymuned a Chymdeithas Heddychlon: *“Hoffwn i weld Cymru fel lle enwog a chryf, dwi eisiau byd lle mae pawb yn garedig ac yn neis ac mae mwy o barch am y gymuned.”*

Yr iaith Gymraeg: *“Mwy o ysgolion Gymraeg, y Gymraeg yn iaith fyw am byth bythoedd.”*

Ariannol: *“Mwy o arian i feddygon, plismyn, llai i sêr a sêr chwaraeon.”*

Gwleidyddol: *“Cynnal refferendwm arall, ond dysgu mwy amdano fe, wedyn bydden ni'n barod am refferendwm.”*

Ysgol Gynradd y Wern Caerdydd

Cafodd y gweithdy Brexit cyntaf ei gynnal yn Ysgol Gynradd y Wern yng Nghaerdydd ar 28 Mawrth 2018. Daeth BBC Radio Cymru i'r gweithdy a chyfweld â rhai o'r disgyblion ar gyfer eitem a gafodd ei darlledu ar raglen newyddion foreol BBC Radio Cymru "Post Cyntaf" ddydd Iau 29 Mawrth 2018.

Cyfryngau Cymdeithasol: Denodd y gweithdy lawer o ddiddordeb ar gyfryngau cymdeithasol nid yn unig yma yng Nghymru ond ledled Ewrop hefyd, er enghraifft:



Eurochild @Eurochild_org Mar 29

Some positive news coming from Brexit negotiations – Welsh Government to ask views of [#children](#) Congrats [@ChildreninWales](#) and [@YoungWalesCIW](#) for bringing [#childparticipation](#) to the political agenda! <https://bit.ly/2GAiVyH> [#BrexitCYPWales](#)

Crynodeb o'r Canfyddiadau o Ysgolion Uwchradd.

Wrth weithio mewn ysgolion, pan oedd amser wedi'i gyfyngu'n aml i gyfnod 35 munud, un o'r ymarferion a ddefnyddiwyd oedd gofyn i'r cyfranogwyr enwi eu tri phrif bryder ac amlinellu'r rheswm dros eu dewis. Gwelir sampl o'r materion allweddol i bobl ifanc, yn nhrefn nifer yr ymatebion a'u henwodd isod. Mae adroddiad llawn a dyfyniadau ar gael yn Atodiad E.

Cwestiwn: Beth ydy'r tri phrif fater sydd bwysicaf i Gymru?

(Mae dyfyniadau uniongyrchol o'r gweithdai i'w gweld mewn teip Italig)

Yr amgylchedd: *“Mae tipio anghyfreithlon yn achosi llygredd ac mae'n gwneud Cymru'n fudr ac yn difetha faint o dwristiaeth i gyd a gawn ni.”*

Gallu i Deithio: *“Teithio'n rhwydd i wledydd eraill, achos hoffwn i fyw tramor neu fynd i brifysgol/ coleg tramor neu fyw tramor”*

Addysg: *“Addysg i fod yn amrywiol a chynnwys pethau mae eu hangen pan fyddwch chi'n hŷn; cael ein haddysgu pethau fel gwleidyddiaeth achos os ydy pobl ifancach yn annysgedig, mae'n fwy anodd pleidleisio. Mwy o addysg am wleidyddiaeth”*

Hawliau Dynol: *“Gwlad lle bydd gyda ni i gyd ein hawliau dynol, achos bydd pobl yn aros yn iach ac ni fydd y gyfradd farwolaethau'n codi.”*

“Helpu mewnfudwyr am eu bod nhw'n fodau dynol ac yn haeddu cael eu hawliau dynol.”

Cymunedau ffyniannus.

“Lle gyda llawer o gyfoeth, gyda mwy o arian er mwyn i'n cymunedau fod yn gryfach.”

Masnach: *“Bod yn uchel yn y farchnad sengl, fel y bydd cwmnïau'n aros ym Mhrydain a bydd swyddi a bydd yn gwneud arian.”*

Iechyd a Lles: *“Blaenoriaethu'r GIG, mae'n bwysig bod gan bawb ofal iechyd.”*

Gwasanaethau a chyfleusterau gwell: *“Mwy o glybiau i blant i leihau diflastod ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.” “Cadw canolfannau ieuenctid ar agor.”*

Pleidleisiau yn 16 oed: *“Gostwng yr oedran pleidleisio i 16, achos dwi'n credu y dylai fod gan fwy o bobl ifancach y cyfle i bleidleisio.”*

Crynodeb o'r Canfyddiadau o leoliadau ieuenctid.

Unwaith eto mae'r dystiolaeth a gasglwyd oddi wrth bobl ifanc wedi ei threfnu yn nhrefn nifer yr ymatebion. Gwelir sampl o'r prif faterion i bobl ifanc isod. Mae adroddiad llawn a dyfyniadau ar gael yn Atodiad F. (*Mae dyfyniadau uniongyrchol o'r gweithdai i'w gweld mewn teip Italgig*)

Cwestiwn: Beth ydy'r tri phrif fater sydd bwysicaf i Gymru?

Addysg: *"Mae arnon ni angen cyfleoedd i astudio tramor, poeni y bydd llai o gyfleoedd i astudio tramor a gallai fod yn ddrutach."*

Gwasanaeth Iechyd Gwladol: *"Ariannu cyfleusterau iechyd meddwl, does dim digon o arian fel mae hi, yn arbennig i bobl ifanc. Sicrhau gwasanaethau iechyd meddwl da i bobl ifanc."*

Twf Economaidd a chysylltiadau â'r UE a/neu Fyd-eang: *"Sicrhau parhad cronfeydd cymdeithasol am eu bod nhw wedi bod o fudd anferthol i Gymru."*

Rhyddid i symud a theithio: *"Mae ar bobl ifanc angen y cyfle i allu gweld gweddill y byd. Dwi'n gobeithio mynd i'r Brifysgol y flwyddyn nesa ac yn ystyried blwyddyn tramor ond fe allai fod yn fwy anodd neu ddim yn bosib."*

Ymgysylltu â phobl ifanc: *"Dylen ni gael yr wybodaeth ddiweddaraf am beth sy'n mynd ymlaen. Mae'r newyddion yn rhy gymhleth i'w dilyn o ran Brexit."*

Pleidleisiau yn 16 oed: *"Mae Brexit yn mynd i effeithio arnon ni pan fyddwn ni'n hŷn ond 'dyn ni ddim wedi gallu lleisio'n barn ni fel pawb dros 18 oed sy'n annheg."*

Llais Ieuenctid: *"Ni ydy'r genhedlaeth nesaf a bydd yn effeithio arnon ni'n arbennig". "Bydd Brexit yn effeithio arnaf fi fel person ac fel gwlad."*

Cwestiwn: Oes digon o wybodaeth ar gael i bobl ifanc am Brexit?

Atebodd y mwyafrif i'r cwestiwn hwn gyda 100% 'nac oes', gyda llawer yn dweud nad ydynt neu nad oeddent wedi gweld unrhyw wybodaeth wedi'i hanelu at bobl ifanc.

Adroddodd un grŵp ganlyniad o 80% Nac oes ac 20% Oes.

Ymatebodd un grŵp gyda 'nac oes' clir iawn o bob un o'r 35 o gyfranogwyr.

Sylwadau a gasglwyd yn ystod trafodaethau:-

- Mae digon o wybodaeth ar gael ond dwi jest ddim yn gwybod beth sy'n wir a beth sydd ddim yn wir.
- Mae yna wybodaeth ond dwi ddim yn ei deall, mae'n rhy gymhleth i'w deall.
- Gormod ond mae hi i gyd yn anniddorol.
- Dwedon nhw lawer o gelwydd cyn y refferendwm felly dwi ddim yn gwybod beth i'w gredu.
- Dwi'n clywed lot am Erthygl 50 ond 'dyw hi ddim wedi cael ei wneud yn syml i bobl ifanc.

Cwestiwn: Chi sy'n gyfrifol am negodiadau Brexit, beth fydddech chi'n ei wneud?

- Sicrhau bod pethau sy'n cael eu hariannu gan arian yr Undeb Ewropeaidd yn dal i dderbyn arian.
- Cynnal ail refferendwm (cytunodd 70% o gyfranogwyr â hyn). □
- Darparu gwybodaeth o ansawdd da fel bod yn fwy gwybodus.

Dylai pobl ifanc ymwneud â gwleidyddiaeth?

- 100 % - dylent
- Dyfyniad o weithdy
"Am fod pobl 16 oed yn cael pleidleisio nawr dylen ni ddechrau dysgu am wleidyddiaeth yn 14 oed fel bod gennyn ni ddwy flynedd i ddysgu beth ddylen ni fod yn pleidleisio amdano a chreu ein barn ein hun er mwyn i ni fod yn barod am etholiadau a gwneud penderfyniadau ein hunain."

Er mwyn cipio ystod mor eang â phosibl o safbwyntiau, cynhaliwyd gweithdai gyda'r Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig (EYST) yn Abertawe, Ffermwyr Ifanc Cymru, a Bwrdd Prosiect Gogledd Cymru.

Gweler atodiadau H, I a J.

Yn gryno:

Yn ystod y gwaith a wnaed mewn gweithdai, mae plant a phobl ifanc wedi dangos diddordeb sylweddol ym mhwnc Brexit a brwdfrydedd i rannu eu meddyliau a'u barn ar y mater.

Roedd gan blant mewn Ysgolion Cynradd a phobl ifanc mewn Ysgolion Uwchradd safbwyntiau pendant ar Brexit, roedd pawb wedi clywed am Brexit ac roedd llawer wedi cymryd rhan mewn trafodaethau blaenorol gyda'u ffrindiau neu eu teulu.

Yn ôl y dystiolaeth, cafodd ystod eang o faterion sylw yn y trafodaethau. I blant mewn ysgolion Cynradd, canolbwyntiodd y sylwadau ar faterion amgylcheddol a chymunedol, pwysigrwydd y Gymraeg ac arian i ariannu meddygon a phlismyn. Cyfeiriodd plant mewn ysgolion Cynradd at ail refferendwm hefyd.

Roedd llawer o'r materion a enwyd gan blant iau yn bwysig hefyd mewn lleoliadau uwchradd, fel yr amgylchedd, cymunedau, a phwysigrwydd gwasanaethau iechyd. I bobl ifanc, roedd blaenoriaethau eraill yn cynnwys cyfleoedd i deithio, hawliau dynol ac addysg.

I bobl ifanc mewn lleoliadau ieuenctid, er eu bod hwythau hefyd yn adlewyrchu llawer o'r materion a welwyd mewn ysgolion Uwchradd, roeddent hefyd yn sôn am gysylltiadau byd-eang, rhyddid i symud, pleidleisiau yn 16 oed a chlywed lleisiau ieuenctid fel eu blaenoriaethau. *“Ni ydy'r genhedlaeth nesaf a bydd yn effeithio arnon ni'n arbennig. Bydd Brexit yn effeithio arna i fel person ac fel gwlad.”*

Canlyniadau Arolwg Brexit.

Cyhoeddir fersiynau Cymraeg a Saesneg cwestiynau arolwg Brexit a'r canlyniadau yn llawn yn Atodiad C.

Gofynnodd yr arolwg ystod o gwestiynau ac mae'r atebion wedi eu cofnodi yn Atodiad K (graffiau a siartiau) ac Atodiad L (ymatebion ysgrifenedig).

Cynhwysir un ateb o'r ymatebion testun yma gan ei fod yn crynhoi'r mwyafrif o'r ymatebion a ddaeth i law.

Popeth; dylai fod tryloywder llawn a chyfathrebu â phobl ifanc. Mae Brexit yn rhywbeth a fydd yn effeithio ar genedlaethau iau yn fwyaf, ac wrth i ni fynd i mewn gan obeithio y bydd y telerau a restrwyd yng nghytundeb Chequers, a fydd o bosibl yn cynnig llawer iawn o ansicrwydd economaidd sy'n gallu arwain at nifer o broblemau cymdeithasol yn codi (h.y. problemau ariannol i'r GIG ac addysg petai effaith ar fasnach a diwydiant), mae'r flwyddyn nesaf yma'n hanfodol bwysig i ddweud wrth bobl ifanc yn union beth fydd yn digwydd, a beth allai ddigwydd pan fyddwn ni'n gadael yr UE o'r diwedd.

Mae angen i bobl fod yn ymwybodol o faint y bydd pob teler yn effeithio ar Gymru, a sut allai hyn effeithio ar eu dyfodol nhw. Mae pobl yn poeni'n barod am godiad mewn ffioedd dysgu, methu â chael swydd am fod diwydiannau Cymru, yn arbennig y diwydiant dur, yn cael anawsterau'n barod.

Mae llawer o bobl yn f'ardal leol i sydd ddim yn gwybod beth fydd Brexit yn ei olygu i ni a chydag ysgolion yn methu siarad yn llawn m wleidyddiaeth er mwyn osgoi tuedd neu ddylanwadu ar bobl ifanc, mae angen i Lywodraeth Cymru wneud rhywbeth, i bawb, i'n hysbysu a'n paratoi ni, nad oedd gennyn ni unrhyw lais yn y refferendwm a dim cynrychiolaeth chwaith, am ryw beth a fydd yn siapio dyfodol pob un ohonon ni, dim ots pa mor bositif neu negyddol fydd hynny.

Efallai nad oes modd i ni wrthdroi Brexit, ond yn bendant mae Llywodraeth Cymru yn gallu gweithio i sicrhau ein bod ni'n cael ein cymryd i ystyriaeth, yn ogystal â materion cymdeithasol, fel y potensial i ddiweithdra godi, i'r GIG a'r sector gael anawsterau gydag arian neu faterion eraill fel masnach a sut allai prinder rheoleiddio gan yr UE effeithio ar ein hamgylchedd. Ond does dim modd gwneud hynny gydag un daflen syml, neu rannu ychydig o ddolenni dros gyfryngau cymdeithasol. Mae angen i hyn gael ei gyflwyno drwy weithdai, mewn

ystafelloedd dosbarth, mewn hysbysebion, y newyddion, pecynnau gwybodaeth, sy'n gallu cael eu dangos drwy gydol y flwyddyn wrth i ni nesáu at 29 Mawrth.

Polau Instagram.

Yn ystod Awst a Medi, datblygodd Cymru Ifanc gyfres o bolau Instagram, gan ofyn cwestiwn penodol ym mhob pól. Cafodd y pól ei hyrwyddo drwy weithdai ac ar gyfryngau cymdeithasol, i annog cyfranogwyr gweithdai dros 13 oed i gynnal eu diddordeb yn y prosiect.

Roedd y mwyafrif o'r polau'n fyw am un neu ddau ddiwrnod, er mwyn annog mynd yn ôl yn rheolaidd ar y pól. Cofrestrodd 300 o bobl gyda'r cyfrif Instagram a derbyniodd y rhan fwyaf o'r polau fwy na 200 o atebion.

Amlygir sampl o'r cwestiynau a'r canlyniadau isod. Mae'r ymateb llawn yn Atodiad M.

Dylai pobl ifanc gael ddweud eu dweud am Brexit? – Dylent 98% Na ddylent 2%.

Dylai pobl ifanc gael eu hysbysu am wleidyddiaeth yn yr ysgol?

Dylent 96% Na ddylent 4%.

Oes digon o wybodaeth i bobl ifanc am Brexit?

Oes 15%, Nac oes 85%.

Dylai pobl ifanc allu pleidleisio am eu dyfodol? 89% Dylent.

11% Na ddylent.

Dylen ni gadw rheoliadau llym yr UE am yr amgylchedd?

Dylem 78%, Na ddylem 22 %

Fydd Brexit yn newid eich cynlluniau gyrfa? Bydd 55% Na fydd 45%

Fydd Brexit yn cael effaith bositif neu negyddol ar eich hawliau?

Positif 10%, Negyddol 90%

Fydd ffermio yng Nghymru yn ffynnu neu'n dirywio ar ôl Brexit? Ffynnu 32%, Dirywio 78%.

Ydych chi'n poeni am sut fydd Brexit yn effeithio ar y gwasanaeth iechyd?

Ydw 80%, Nac ydw 20%

Ydych chi'n gwybod beth ydy cytundeb Chequers? Ydw 38%, Nac ydw 62%

Mae'r cwestiynau yn rhoi prawf ar rai o'r ymatebion a gasglwyd mewn gweithdai wyneb i wyneb ac yn adlewyrchu'r dystiolaeth a gasglwyd wyneb i wyneb, ar yr un pryd â rhoi awgrym rhifol o gryfder safbwyntiau pobl ifanc.

Gofynnodd Cyfoeth Naturiol Cymru i Cymru Ifanc gynnwys y cwestiynau canlynol:

Sut ydych chi'n meddwl y bydd Brexit yn effeithio ar amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru?

Beth hoffech chi ei weld yn cael ei newid?

Beth hoffech chi iddo aros fel y mae?

Gwelir y canlyniadau llawn yn Atodiad M.

Canolbwyntiodd y canlyniadau ar y meysydd pryder canlynol:-

- Pryder am allu ffermwyr i fasnachu yn dilyn Brexit.
- Byddai adnoddau naturiol yn lleihau.
- Cost gynyddol tanwydd.
- Colli cyllid yr UE.
- Sbwriel, yr amgylchedd, yr angen am afonydd glân ar gyfer pysgota a phryderon am lygredd.
- Datblygu ynni cynaliadwy ac adnewyddadwy.

Hefyd cyfeiriodd y canlyniadau at fanteision posibl:-

- Gallen ni ddechrau defnyddio ein hadnoddau naturiol yn fwy.
- Aer glân, byddwn yn iachach, a gallai wella hwyliau ac iechyd meddwl.
- Darparu biniau ailgylchu ac annog pobl i'w defnyddio.
- Ceisio gwaredu mwy o wastraff a defnyddio llai o becynnu.

Casglwyd y canlyniadau o weithdai gyda phobl ifanc mewn lleoliadau ieuenctid ac maent yn adlewyrchu gwybodaeth a phryderon pobl ifanc am yr ystyriaethau amgylcheddol, llygredd a physgota a ffermio, a oedd wedi'u hamlygu hefyd drwy gydol y gweithdai mewn ysgolion.

Animeiddiad Brexit.

Mae'r animeiddiad Brexit wrthi'n cael ei gwblhau.

Cafodd y gwaith ei ddylunio a'i ddatblygu gyda phobl ifanc.

Digwyddiad Amser Holi.

Cynhaliwyd digwyddiad Amser Holi Cymru Ifanc, a noddwyd gan Vikki Howells AC, yn y Senedd ar 24 Hydref 2018. Gwelir dalen hysbysebu'r digwyddiad yn Atodiad O.

Cafodd y digwyddiad ei gadeirio gan James Williams, Gohebydd Brexit Cymru BBC Cymru.

Aelodau'r Panel oedd:

Huw Irranca-Davies AC, Gweinidog dros Blant, Pobl Hŷn a gofal Cymdeithasol

Ruth Coombs, Pennaeth Cymru, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Mari Arthur, Cyfarwyddwr Cynnal Cymru

Meri Huws, Comisiynydd y Gymraeg

Dr David Williams, Cadeirydd Plant yng Nghymru a Chyfarwyddwr Clinigol Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan.

Mae'r cwestiynau a gyflwynwyd gan bobl ifanc ac a drafodwyd yn y digwyddiad wedi eu cynnwys yn Atodiad P.

Mynychwyd y digwyddiad gan 50 o blant a phobl ifanc, ynghyd â gweithwyr ieuenctid a staff cymorth.

Casgliadau ac argymhellion.

Casgliadau.

Mae hwn wedi bod yn ddarn o waith hynod o ddiddorol, heriol a diddorol i dîm Cymru Ifanc a'r bobl ifanc a gymerodd ran weithgar yn y gwaith dylunio a chyflenwi.

Roedd yr holl blant a phobl ifanc yn ymwybodol iawn o Brexit ac yn awyddus i rannu eu barn. Digwyddodd y gweithdai mewn ysgolion yn ystod wythnosau olaf tymor yr haf, ar ôl i arholiadau a phrofion ddod i ben. Mae'r cyfnod hwn yn amser mwy hamddenol ac roedd modd i bobl ifanc ymgysylltu â'r gwaith hwn i ffwrdd o bwysau arholiadau.

Aeth yr ymgysylltu â fforymau ieuenctid a grwpiau tu allan i ysgolion yn eu blaen trwy gydol yr haf, gyda'r ychydig o weithdai olaf yn cael eu cyflwyno ym Medi.

Er bod ymgysylltiad positif gan fwrdd brosiect Gogledd Cymru, pobl ifanc Cymru Ifanc, ac oddi wrth Ffermwyr Ifanc, roedd yr heriau presennol sy'n wynebu rhai o wasanaethau ieuenctid yng Ngogledd Cymru, roedd cyfleoedd cyfyngedig i ymgysylltu wyneb yn wyneb â chynifer o bobl ifanc ag yr oeddem wedi gobeithio. Fodd bynnag, gwnaethom sicrhau bod yr wybodaeth am yr arolwg a'r polau Instagram yn cael ei hybu'n egniol drwy ein holl gysylltiadau.

Roedd y plant a'r bobl ifanc y siaradom â nhw yn wybodus iawn ac yn awyddus i gymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau ar Brexit.

Mae eu hamrediad eang o safbwyntiau'n cael eu hadlewyrchu yn yr adroddiad hwn a lled a dyfnder yr wybodaeth yn drawiadol fel a welir yn y dystiolaeth a gasglwyd mewn gweithdai a thrwy'r arolwg ar-lein a pholau Instagram.

Gwybodaeth: Er i'r bobl ifanc fynegi safbwyntiau a oedd yn adlewyrchu ochrau gadael ac aros, y farn gryfach oddi wrth bobl ifanc oedd i aros. Nododd y bobl ifanc ystod eang iawn o faterion gangynnwys yr amgylchedd, addysg, hawliau dynol a chyfleoedd i deithio ac astudio tramor. Mae pobl ifanc yn awyddus iawn i ddeall sut y bydd y berthynas newydd ag Ewrop yn datblygu a sut y bydd yn effeithio ar eu hopsiynau yn y dyfodol.

Cyllid Ewropeaidd: Mynegodd pobl ifanc bryderon am effeithiau posibl colli cyllid Ewrop ar eu cymunedau ac ar eu cyfleoedd eu hun. Roedd pobl ifanc yn poeni am ddyfodol Erasmus+ ac effaith colli'r cyllid hwn ar gyfleoedd pobl ifanc.

Masnach a'r farchnad sengl: Mynegwyd llawer o bryderon am yr effaith ar fasnach a chyflogaeth, yn arbennig mewn perthynas â'r trafodaethau presennol am adael y farchnad sengl, a'r potensial i gwmnïau adleoli i Ewrop a gadael y DU.

Materion iechyd a lles: Codwyd cwestiynau am golled posibl staff meddygol a staff nyrsio yn dilyn Brexit, ac ymdeimlad na fyddai'r GIG yn gallu denu meddygon a nyrsys o dramor.

Rhyddid i symud: Mae dau fater wedi dod i'r amlwg mewn perthynas â rhyddid symud: Yn gyntaf y cyfleoedd i astudio tramor. Yn ail pryderon plant a phobl ifanc sydd wedi symud i'r wlad hon, sy'n gweld Cymru fel eu

cartref, ond bellach ddim yn gwybod beth fydd eu statws a'u sefyllfa ar ôl Ebrill 2019.

Deall gwleidyddiaeth: Mae'r gweithgarwch Brexit diweddar wedi procio pobl ifanc i gymryd mwy o ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth, gan geisio dealltwriaeth well a mwy o gyfleoedd i gymryd rhan. Teimlai'r mwyafrif o'r bobl ifanc siaradom â nhw nad ydynt yn cael unrhyw wybodaeth am broses Brexit, ac eithrio drwy'r cyfryngau newyddion, ac nid yw llawer o bobl ifanc yn ymddiried yn yr wybodaeth hon. *“Dylen ni gael yr wybodaeth ddiweddaraf gyda beth sy'n mynd ymlaen mewn perthynas â Brexit.”* was a message we got from many pobl ifanc. Mae'r ffaith bod athrawon yn gyffredinol yn osgoi'r pwnc oherwydd ofn cael eu cyhuddo o duedd wedi golygu bod pobl ifanc wedi teimlo eu bod yn methu trafod Brexit yn yr ysgol.

Pleidleisiau yn 16 oed: Mae llawer o bobl ifanc yn teimlo'n gryf iawn y dylent fod wedi gallu pleidleisio yn y refferendwm, ac maent yn credu y byddai eu pleidlais wedi dylanwadu ar y canlyniad.

Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru:

Y neges glir iawn oddi wrth bobl ifanc yng Nghymru yw eu bod yn dymuno cael eu hysbysu a chymryd rhan ym mhroses Brexit.

Dangosodd y bobl ifanc a gymerodd ran yn y gwaith hwn hefyd eu bod yn dymuno deall a chael eu haddysgu am brosesau gwleidyddol, am sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud a sut maent yn gallu cymryd rhan. Er y bydd Senedd leuencid newydd Cymru yn cynorthwyo yn y broses hon, ni ddylai gael ei gadael i wneud hynny ar ei phen ei hun.

Mae Brexit wedi deffro pobl ifanc i bwysigrwydd meddu ar lais ym mhob dim sy'n bwysig iddynt ac amdanynt. Mae yna angen a chyfle i ymgysylltu â phobl ifanc a'u hysbysu yn gyntaf am broses Brexit wrth i ni symud i mewn i fisoedd olaf y negodiadau ac, yn ail, edrych ar sut mae pobl ifanc yn cael eu galluogi i ddeall swyddogaethau a strwythurau Llywodraeth a democratiaeth, i'w helpu i fynd yn ddinasyddion gweithgar ac ymroddedig Cymru.

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gall drefnu bod gwybodaeth ar gael i bobl ifanc, ar ffurf sy'n gwbl hygyrch iddynt.

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut mae pobl ifanc yn derbyn yr wybodaeth a'r offer i ddeall, dysgu ynghylch a chymryd rhan mewn prosesau democrataidd, gan gynnwys rolau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, gan eu galluogi felly i fynd yn ddinasyddion gweithgar a gwybodus.

Argymhellion ar gyfer Llywodraeth y DU:

Dylai fod gan Lywodraeth y DU rôl hefyd mewn hysbysu a galluogi pobl ifanc i ddeall a dysgu am y prosesau gwleidyddol sy'n effeithio ar eu bywydau. Dylid trefnu bod gwybodaeth ar gyfer pobl ifanc ar gael mewn fformat hwylus i bobl ifanc ledled y DU, er mwyn sicrhau eu bod yn deall sut mae swyddogaeth Llywodraeth y DU a swyddogaeth y Llywodraeth yn eu cenedl nhw yn gweithio mewn perthynas â'u bywyd nhw.

Atodiadau

Atodiad A: Lleisiau pobl ifanc yn y DU, adolygiad o'r llenyddiaeth.

Atodiad B: Cynlluniau ac adnoddau ar gyfer gweithdai.

Atodiad C: Holiadur Brexit: Brexit Questionnaire.

Atodiad D: Canfyddiadau o weithdai Ysgolion Cynradd.

Atodiad E: Adborth oddi wrth Ysgolion Uwchradd

Atodiad F: Gweithdai a gyflwynwyd mewn lleoliadau leuenctid.

Atodiad G: Gwasanaethau leuenctid, parhad.

Atodiad H: Gweithdy Brexit gydag EYST, Abertawe.

Atodiad I: Sylwadau gan bobl ifanc mewn cyfarfod Ffermwyr Ifanc Cymru.

Atodiad J: Gweithdy gyda Bwrdd Prosiect Gogledd Cymru.

Atodiad K: Canlyniadau arolwg Brexit.

Atodiad L: Ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau Arolwg Brexit

Atodiad M: Polau Instagram.

Atodiad N: Cyfoeth Naturiol Cymru

Atodiad O: Gwybodaeth am Amser Holi Brexit.

Atodiad P: Cwestiwn a gyflwynwyd gan bobl ifanc ar gyfer digwyddiad Amser Holi